**Rhif: WG42453**

Llywodraeth Cymru
# Dogfen Ymgynghori

# Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru

Dyddiad cyhoeddi: 16 Mawrth 2021
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 8 Mehefin 2021

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Hoffem roi gwybod i chi am y cynlluniau ar gyfer gwella gwasanaethau rheilffyrdd yn ardal Bae Abertawe a Gorllewin Cymru. |
| **Sut i ymateb** | Defnyddiwch yr holiadur ar ddiwedd y ddogfen, neu drwy lenwi ffurflen ar-lein. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.** |
| **Manylion Cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Cyfeiriad:<br>Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru<br>Capita<br>Ty Dewi Sant<br>Clos Pascal<br>Llaneirwg<br>Caerdydd<br>CF3 0LW<br><br>E-bost: SBWWMetro@capita.com |
| **Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg** | https://gov.wales/swansea-bay-and-west-wales-metro |

## Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu’r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy’n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu’r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion cyn cyhoeddi’ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i’w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu’r data
- (o dan rai amgylchiadau) i’ch data gael eu ‘dileu’
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

**Ymgynghoriad Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Gâr, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Abertawe i lunio cynlluniau ar gyfer Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru.

Mae Metro yn ymwneud â hwyluso teithio, boed hynny ar drên, ar fws, ar feic neu ar droed, i gyrraedd y gwaith neu'r ysgol, apwyntiadau ysbyty neu at ddibenion hamdden, i gyd trwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Drwy'r ymgynghoriad hwn, hoffem roi gwybod i chi am y cynlluniau ar gyfer gwella gwasanaethau rheilffyrdd yn ardal Bae Abertawe a Gorllewin Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys mwy o wasanaethau pellter hir, mwy o wasanaethau lleol o Orllewin Cymru i Gaerfyrddin ac Abertawe, datblygu gwasanaethau Bae Abertawe a gorsafoedd newydd a gwelliannau i orsafoedd sy'n bodoli eisoes.

Rydym bellach yng ngham 1 Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) ac rydym yn gofyn am eich barn ar yr opsiynau rydym wedi'u cyflwyno, gan ganolbwyntio ar y rhai sydd ar y rhestr fer i'w hystyried yn fanylach yn ystod y cam nesaf.


Ffigur 1: Camau WelTAG




**Nodau'r Metro**

Nod y dull Metro ledled Cymru yw darparu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu trwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, megis rheilffyrdd trwm, trenau tram, rheilffyrdd ysgafn a bysiau, a bydd modd cyrraedd y rhain i gyd ar droed neu ar feic. Mae'r ardal y bydd Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru yn ei chwmpasu i'w gweld yn Ffigur 2 ac mae'n cynnwys siroedd Caerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Penfro ac Abertawe.

Ffigur 2: Ardal Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru





## Gwasanaethau rheilffyrdd presennol

Ar hyn o bryd, gwasanaethir yr ardal gan y llwybrau rheilffordd canlynol:

| Llwybr | Mynychder y Gwasanaeth |
|---|---|
| Manceinion – Aberdaugleddau | Gwasanaeth bob awr i Abertawe/Caerfyrddin Gwasanaeth bob dwyawr i Aberdaugleddau |
| Abertawe – Doc Penfro | Gwasanaeth bob dwyawr |
| Caerdydd/Abertawe – Abergwaun | Saith trên/ dydd (bob dwy-tair awr) |
| Abertawe i Amwythig (Rheilffordd Calon Cymru) | Pedwar trên y dydd (+1 i/o Lanymddyfri) (bob pedair awr) |
| Paddington Llundain – Abertawe | Bob awr (adegau tawel), bob 30 munud (adegau prysur) |
| Paddington Llundain – Caerfyrddin | Un trên dwy ffordd y dydd (trwy Abertawe) |
| Caerdydd – Abertawe (gwasanaeth lleol Swanline) | Gwasanaeth bob dwyawr |

Ffigur 3: Crynodeb o wasanaethau cyfredol




## Problemau gyda'r drafnidiaeth gyhoeddus bresennol

Mae gwaith a wnaed yn y gorffennol wedi pennu'r angen i wella gwasanaethau er mwyn ymdrin â'r materion allweddol a ganlyn:

- Diffyg amseroedd cystadleuol/amseroedd siwrne hir i Dde Orllewin Cymru o gymharu â theithio yn y car
- Diffyg gwasanaethau trwodd i Dde Orllewin Cymru
- Trenau uniongyrchol anfynych i Abertawe
- Gwasanaeth anfynych ar ganghennau Gorllewin Cymru (bob dwyawr)
- Diffyg gwasanaethau lleol i gymudwyr i wasanaethu ardal Bae Abertawe, yn enwedig cyfle i ddefnyddio Llinell Ardal Abertawe

## Beth rydym ni'n ceisio'i gyflawni trwy Metro?

Isod, rhestrir meysydd a gwelliannau y bydd rhaglen rhwydwaith Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru yn gweithio tuag atynt yn y dyfodol.

Prif Linell De Cymru:

1. Lleihau amseroedd siwrneiau trên rhwng Gorllewin Cymru a Llundain, gan anelu at:
   a. 90 munud rhwng Caerdydd a Paddington Llundain.
   b. 30 munud rhwng Caerdydd a Temple Meads Bryste.
   c. 30 munud rhwng Abertawe a Chaerdydd.
2. Cynyddu mynychder y gwasanaethau rhwng De Orllewin Cymru a Llundain, Caerdydd a Temple Meads Bryste.
3. Darparu capasiti digonol a gwella cadernid y rhwydwaith rheilffyrdd rhwng Caerdydd a Bryste er mwyn diwallu'r galw yn y dyfodol o ran cludo teithwyr a chludo nwyddau.
4. Gwella'r cysylltiad â phyrth rhyngwladol/meysydd awyr a pharthau menter.

5. Gwella darpariaethau Parcio a Theithio ar gyfer cael mynediad at Brif Linell De Cymru a dibynnu llai ar goridor yr M4.
6. Integreiddio'r brif linell a'r rhwydwaith trafnidiaeth ehangach yn well, yn arbennig o ran datblygu systemau Metro Bryste a De Cymru.
7. Cynyddu potensial gorsafoedd i gyflymu adfywio trefol a darparu safleoedd datblygiadau mawr.
8. Cynyddu nifer y siwrneiau ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan ganolbwyntio ar siwrneiau cymudwyr.
9. Lleihau effaith amgylcheddol trafnidiaeth, yn arbennig o ran allyriadau carbon ac ansawdd aer.
10. Gwella effeithlonrwydd y rhwydwaith rheilffyrdd fel y gellir lleihau'r cymhorthdal fesul teithiwr yn y dyfodol.

<u>Rhwydwaith Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru:</u>

1. Lleihau amseroedd siwrneiau rhwng canolfannau poblogaeth allweddol, yn cynnwys Abertawe, Castell-nedd, Port Talbot, Llanelli, Caerfyrddin, Hwlffordd ac Aberdaugleddau.
2. Cynyddu mynychder gwasanaethau:
    a. Ar gyfer gorsafoedd lleol ar y brif linell rhwng Caerfyrddin a Phort Talbot, yn enwedig yn ystod cyfnodau prysur.
    b. Ar Reilffordd Calon Cymru er mwyn cynnig gwasanaeth i gymudwyr i Abertawe a thu hwnt.
    c. Ar draws De Orllewin Cymru er mwyn eu gwneud yn fwy addas ar gyfer cymudo dyddiol.
3. Gwella hygyrchedd trafnidiaeth yn y rhanbarth trwy ymestyn cyrhaeddiad gofodol y rhwydwaith a'r gwasanaethau.
4. Gwella darpariaethau Parcio a Theithio ar gyfer cael mynediad i ranbarth Bae Abertawe.
5. Cynnig dewis amgen ymarferol ar ffurf trafnidiaeth gyhoeddus yn lle coridor yr M4/A48 sy'n llawn tagfeydd.
6. Cyfrannu at ddatblygu Metro Ardal Drefol Bae Abertawe, yn cynnwys gwelliannau i gyfnewidfeydd aml-ddull.
7. Cynyddu potensial gorsafoedd i gyflymu adfywio trefol a darparu safleoedd datblygiadau mawr.
8. Cynyddu nifer y teithiau a wneir ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan ganolbwyntio ar deithiau cymudwyr.
9. Lleihau effaith amgylcheddol trafnidiaeth, yn arbennig o ran allyriadau carbon ac ansawdd aer.
10. Gwella effeithlonrwydd y rhwydwaith rheilffyrdd fel y gellir lleihau'r cymhorthdal fesul teithiwr yn y dyfodol.

**Gwybodaeth i'w hystyried…**

Mae gwaith a mewnbwn blaenorol gan randdeiliaid gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru, Cyngor Sir Gâr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Abertawe, Network Rail, a Passenger Focus, wedi nodi meysydd a gwelliannau i'w hystyried wrth symud ymlaen.

Mae'r cynigion hyn yn ychwanegol at ymrwymiadau presennol gan wasanaethau rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru yn Ne Orllewin Cymru, sy'n cynnwys cyflwyno trenau newydd a threnau wedi'u hailwampio, ynghyd â gwasanaeth dyddiol ychwanegol ar Reilffordd Calon Cymru.

Ar y tudalennau sy'n dilyn, fe welwch y meysydd a'r gwelliannau sydd wedi'u nodi, a hoffem gael eich barn arnynt.

**Gwasanaethau pellter hir a gwelliannau seilwaith prif linell:**

**Gwasanaethau**


| **Cyfeirnod yr opsiwn** | **Cynnig ar gyfer y gwasanaeth** | **Mynychder ychwanegol** | **Cyfanswm y mynychder** |
|---|---|---|---|
| Opsiwn 1 | Paddington Llundain i Abertawe bob 30 munud trwy'r dydd | Un trên yr awr ar adegau tawel (Caerdydd i Abertawe) | Gwasanaeth bob hanner awr |
| Opsiwn 2 | Gwasanaeth Cyflym Gorllewin Cymru: ymestyn gwasanaethau Taunton/Temple Meads Bryste – Caerdydd i Gaerfyrddin neu Aberdaugleddau (bob awr) naill ai trwy Abertawe neu Linell Ardal Abertawe neu gyda/heb Orsaf Parcffordd Gorllewin Cymru (Felindre) | Un trên yr awr (Caerdydd i Gaerfyrddin neu Aberdaugleddau) | Gwasanaeth bob awr<br><br>(1.5 trên yr awr ar gangen Aberdaugleddau) |
| Opsiwn 3 | Ymestyn y gwasanaeth cyflym presennol o Gaerfyrddin i Lundain, i ddechrau a gorffen ei ddiwrnod yn Aberdaugleddau neu Hwlffordd. | Un trên dwy ffordd y dydd (Caerfyrddin i Hwlffordd neu Aberdaugleddau) | Gwasanaeth dyddiol (un trên bob ffordd) |
| Opsiwn 4 | Aberdaugleddau i Orsaf Parkway Bryste neu Temple Meads Bryste bob dwyawr. | Un trên bob dwyawr | Un trên bob dwyawr (bob awr ar gangen Aberdaugleddau) |

| Opsiwn 5 | Potensial i Drenau Grand Union ddarparu gwasanaethau ychwanegol ar Brif Linell De Cymru | Hyd at chwe thrên y dydd (dau i Gaerdydd i ddechrau) | Gwasanaeth hyd at bob dwyawr/teirawr (hyd at chwe thrên y dydd) |
|---|---|---|---|

**Seilwaith**

| **Cyfeirnod yr opsiwn** | **Cynnig ar gyfer y gwasanaeth** | **Allbwn** |
|---|---|---|
| Opsiwn 6 | Adolygu cyflymder y llinell rhwng Caerdydd a Gorllewin Cymru | Lleihau amseroedd siwrneiau |
| Opsiwn 26 | Trydaneiddio | Datgarboneiddio a lleihau amseroedd siwrneiau |

Ffigur 4: Gwasanaethau Pellter Hir Prif Linell De Cymru




# Mynychder a chysylltedd: Gorllewin Cymru

## Gwasanaethau

| Cyfeirnod yr opsiwn | Cynnig ar gyfer y gwasanaeth | Mynychder ychwanegol | Cyfanswm y mynychder |
|---|---|---|---|
| Opsiwn 7 | Gwasanaeth newydd o Abertawe/Caerfyrddin i Aberdaugleddau | Un trên bob dwyawr | Gwasanaeth bob awr |
| Opsiwn 8 | Ymestyn y gwasanaeth Manceinion – Caerfyrddin i ddarparu gwasanaeth bob awr i Aberdaugleddau (dewis amgen i opsiwn 7) | Un trên bob dwyawr (Caerfyrddin i Aberdaugleddau) | Gwasanaeth bob awr |
| Opsiwn 9 | Gwasanaeth newydd o Abertawe/Caerfyrddin i Ddoc Penfro | Un trên bob dwyawr | Gwasanaeth bob awr |
| Opsiwn 11 | Ad-drefnu gwasanaethau Abertawe i Borthladd Abergwaun | Dau drên y dydd | Un trên bob dwyawr |
| Opsiwn 27 | Gwasanaethau ychwanegol Caerdydd – Pen-y-bont ar Ogwr | Un trên bob dwyawr | Bob awr |
| Opsiwn 28 | Gwasanaeth ychwanegol ar Reilffordd Calon Cymru | Un trên y dydd | Saith trên y dydd |

Ffigur 5: Mynychder a chysylltedd: Gorllewin Cymru




**<u>Mynychder a chysylltedd: Bae Abertawe</u>**

**Gwasanaethau a gorsafoedd newydd**

| **Cyfeirnod yr opsiwn** | **Cynnig ar gyfer y gwasanaeth** | **Mynychder ychwanegol** |
|---|---|---|
| Opsiwn 12<br>Opsiynau 22, 23 a 24A-D | Abertawe – Pontarddulais trwy Gastell-nedd a Llinell Ardal Abertawe<br>Gorsafoedd newydd yn: Llandarcy, Glandŵr, Winsh-wen, Treforys, Felindre, Penlle’r-gaer, Pont-lliw<br>(yn galw hefyd yn Sgiwen a Llansamlet) | Bob 30 munud, pob gorsaf |
| Opsiwn 13<br>Opsiwn 24E | Abertawe i Ben-bre a Phorth Tywyn<br>Gorsaf newydd: Y Cocyd<br>(yn galw hefyd yn Nhre-gŵyr a Llanelli) | Bob 30 munud, pob gorsaf |
| Opsiwn 14 | Trac ychwanegol yng Nghyffordd Llandeilo (gan osgoi cildroi yn Llanelli ar gyfer gwasanaeth rheilffordd Calon Cymru) | Ddim yn gymwys |
| Opsiwn 15 | Rhydaman i Wauncaegurwen | Bob 30 munud, pob gorsaf |
| Opsiwn 16 | Castell-nedd i Onllwyn | Bob 30 munud, pob gorsaf |
| Opsiwn 17 | Castell-nedd i Gwm-gwrach | Bob 30 munud, pob gorsaf |
| Opsiwn 18 | Castell-nedd/Llandarcy – Canol Dinas Abertawe trwy Ddociau Abertawe (ar ffurf Gweithrediad Trenau Tram gan nad oes llinell rheilffordd yno ar hyn o bryd) | Bob 30 munud, pob gorsaf |
| Opsiwn 19 | Llinell Ardal Abertawe i Glydach | Bob 30 munud, pob gorsaf |
| Opsiwn 20 | Cysylltiad Hirwaun (Cwm-gwrach i Hirwaun). | Bob 30 munud, pob gorsaf |

Ffigur 6: Mynychder a chysylltedd: Bae Abertawe




## <u>Gorsafoedd prif linell newydd a gwelliannau i orsafoedd:</u>

### Gwelliannau i orsafoedd


| Cyfeirnod yr opsiwn | Lleoliad yr orsaf | Cynigion |
|---|---|---|
| Opsiwn 25A | Caerfyrddin | Gwelliannau parcio |
| Opsiwn 25B | Pen-bre a Phorth Tywyn | Gwella mynediad rhwng platfformau |
| Opsiwn 25C | Hendy-gwyn ar Daf | Gwella mynediad rhwng platfformau, a gwelliannau i'r ddarpariaeth parcio ceir ac i'r gyfnewidfa |
| Opsiwn 25D | Llanelli | Gwella mynediad rhwng platfformau, a gwelliannau i'r ddarpariaeth parcio ceir ac i'r gyfnewidfa |
| Opsiwn 25E | Castell-nedd | Gwella mynediad rhwng platfformau, a gwelliannau i'r ddarpariaeth parcio ceir ac i'r gyfnewidfa |
| Opsiwn 25F | Aberdaugleddau | Gwella mynediad i'r dref a gwelliannau i'r gyfnewidfa |

**Gorsafoedd**

| **Cyfeirnod yr opsiwn** | **Gorsafoedd newydd** |
|---|---|
| Opsiwn 21 | Sanclêr |

Mae Gorsaf Sanclêr wedi cael cyllid gan Gronfa Gorsafoedd Newydd yr Adran Drafnidiaeth.

Ffigur 7: Gorsafoedd prif linell newydd a gwelliannau i orsafoedd




## <u>Byddem wrth ein bodd yn gwybod beth yw eich barn</u>

Dyma'ch cyfle i ddweud eich dweud am ddyfodol Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru. Cliciwch yn ôl i ddod o hyd i'r ddolen i'n holiadur ar-lein i chi ei gwblhau mor agored a gonest ag y gallwch. Bydd y wybodaeth a roddwch i ni yn helpu i lywio'r ffordd y caiff eich rhwydwaith trafnidiaeth ei adeiladu a'i gyflwyno, ac mae eich adborth yn bwysig i ni. Gwerthfawrogwn yr amser rydych chi'n ei dreulio i'n helpu i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gwell a fydd o fudd i bob un ohonom yn y dyfodol.

**Holiadur ymgynghoriad Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru**

**Atebwch y cwestiynau canlynol mewn perthynas â'ch teithio cyn y cyfyngiadau Covid-19**

Mae'r holiadur hwn yn ddienw a byddwn yn ymdrin â'r holl ddata yn gyfrinachol.

**1**. Nodwch eich ystod oedran:
- Dan 18
- 19-25
- 26-35
- 36-45
- 46-55
- 56-65
- Dros 65

**2.** Beth yw eich cod post?
…………………………………………………………………….

**3.** A oes gennych fynediad at gar?
- Oes
- Nac oes

**4.** O ba orsaf ydych chi'n teithio amlaf?
…………………………………………………………………….

**5.** I ba orsaf ydych chi'n teithio amlaf?
…………………………………………………………………….

**6.** Ar gyfartaledd, pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r trên? Rhowch gylch o amgylch eich ateb.
- Yn ddyddiol
- Tair i bedair gwaith yr wythnos
- Unwaith i ddwywaith yr wythnos
- Unwaith i deirgwaith y mis
- Llai nag unwaith y mis
- Byth

**7.** Beth yw eich prif reswm dros ddefnyddio’r trên? Rhowch gylch o amgylch eich ateb

- Cymudo
- Busnes
- Hamdden
- Twristiaeth
- Siopa
- Arall (esboniwch, os gwelwch yn dda)

**8.** Sut ydych chi’n cyrraedd yr orsaf reilffordd?

- Cerdded
- Beicio
- Bws
- Car
- Car (rhywun yn eich hebrwng)
- Tacsi
- Arall (esboniwch, os gwelwch yn dda)

**9.** Ar sail eich profiad o ddefnyddio'r rheilffordd a'r math o siwrneiau rydych chi eisiau eu gwneud, pa opsiynau o blith y canlynol a fyddai'n gwella eich profiad fwyaf?
Nodwch yr opsiynau isod yn eu trefn, o'r opsiwn mwyaf ei effaith i'r opsiwn lleiaf ei effaith, gydag 1 yn cyfateb i'r effaith fwyaf a 5 yn cyfateb i'r effaith leiaf. Nodwch y drefn yn y blychau isod. Er enghraifft, os ydych chi'n credu mai opsiwn C yw'r gorau, ysgrifennwch opsiwn C ym mlwch 1, os mai opsiwn F yw'r ail orau, ysgrifennwch opsiwn F ym mlwch 2 ac yn y blaen.

**Yng Ngorllewin Cymru**

- A: Cynyddu mynychder y gwasanaethau presennol (Doc Penfro, Aberdaugleddau, Abergwaun) rhwng Gorsafoedd yng Ngorllewin Cymru ac Abertawe e.e. o bob dwyawr i bob awr.
- B: Gwasanaethau uniongyrchol o Aberdaugleddau/Caerfyrddin i gyrchfannau pellter hir newydd e.e. i Gaerdydd a Bryste trwy Abertawe (gyda mynychder y gwasanaethau i Abertawe yn cynyddu hefyd).
- C: Gwasanaethau uniongyrchol o Aberdaugleddau/Caerfyrddin i gyrchfannau pellter hir newydd e.e. i Gaerdydd a Bryste, gan fynd heibio i Abertawe (heb newid mynychder y gwasanaethau i Abertawe).
- D: Ymestyn y gwasanaeth dwy ffordd dyddiol rhwng Caerfyrddin – Llundain i Hwlffordd neu Aberdaugleddau.
- E: Gwella cyfleusterau mewn gorsafoedd presennol
- F: Gorsafoedd lleol newydd ar hyd rheilffyrdd presennol e.e. Sanclêr.

| 1: (yr effaith fwyaf) | 2: | 3: | 4: | 5: | 6: (yr effaith leiaf) |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

**Ym Mae Abertawe**

- A: Cynyddu mynychder gwasanaethau lleol presennol i Abertawe o orsafoedd lleol presennol.
- B: Gwasanaethau uniongyrchol o Abertawe i gyrchfannau pellter hir nad eir iddynt ar hyn o bryd e.e. Temple Meads Bryste.
- C: Gwella cyfleusterau mewn gorsafoedd presennol
- D: Cyfnewidfa bysiau a threnau well mewn gorsafoedd presennol
- E: Gwasanaethau metro newydd bob 30 munud i orsafoedd presennol a gorsafoedd a newydd.

| 1: (yr effaith fwyaf) | 2: | 3: | 4: | 5: (yr effaith leiaf) |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

**10.** O’r opsiynau a restrir isod, beth yw’r pum opsiwn sydd bwysicaf yn eich barn chi. Dewiswch bump yn unig.

| Blaenoriaeth | | | | | Opsiwn |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | |
| | | | | | Opsiwn 1: Paddington Llundain i Abertawe bob 30 munud trwy’r dydd (gwasanaeth bob hanner awr) |
| | | | | | Opsiwn 2: Gwasanaeth Cyflym Gorllewin Cymru – ymestyn gwasanaethau Taunton/TM Bryste i Gaerfyrddin neu Aberdaugleddau er mwyn darparu gwasanaeth uniongyrchol bob awr |
| | | | | | Opsiwn 3: Ymestyn gwasanaeth dwy ffordd un trên y dydd GWR rhwng Caerfyrddin – Llundain i Aberdaugleddau neu Hwlffordd er mwyn darparu un trên y dydd |
| | | | | | Opsiwn 4: Aberdaugleddau i Orsaf Parkway Bryste neu Temple Meads Bryste er mwyn darparu gwasanaeth uniongyrchol bob dwyawr |
| | | | | | Opsiwn 6: Adolygu cyflymder y llinell rhwng Caerdydd a Gorllewin Cymru er mwyn cael siwrneiau cyflymach |
| | | | | | Opsiwn 26: Trydaneiddio Metro Bae Abertawe (Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru?) /Gwasanaethau Ehangach i gefnogi datgarboneiddio a theithiau cyflymach |
| | | | | | Opsiwn 7: Gwasanaeth newydd o Abertawe/Caerfyrddin i Aberdaugleddau er mwyn darparu gwasanaeth bob awr |
| | | | | | Opsiwn 8: Ymestyn y gwasanaeth rhwng Manceinion – Caerfyrddin i Aberdaugleddau er mwyn darparu gwasanaeth bob awr |
| | | | | | Opsiwn 9: Gwasanaeth newydd o Abertawe/Caerfyrddin i Ddoc Penfro er mwyn darparu gwasanaeth bob awr |
| | | | | | Opsiwn 11: Ad-drefnu gwasanaethau Abertawe i Borthladd Abergwaun er mwyn cael gwasanaeth rheolaidd bob dwyawr |
| | | | | | Opsiwn 27: Gwasanaethau ychwanegol rhwng Caerdydd – Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn cynnig gwasanaeth stopio bob awr yn gyffredinol |
| | | | | | Opsiwn 28: Gwasanaeth ychwanegol ar Reilffordd Calon Cymru er mwyn darparu cyfanswm o saith trên y dydd rhwng Abertawe a Llanymddyfri |
| | | | | | Opsiwn 21: Gorsaf newydd yn Sanclêr |
| | | | | | Opsiwn 25A: Gwelliannau yng ngorsaf Caerfyrddin |
| | | | | | Opsiwn 25B: Gwelliannau yng ngorsaf Pen-bre a Phorth Tywyn |
| | | | | | Opsiwn 25C: Gwelliannau yng ngorsaf Hendy-gwyn ar Daf |
| | | | | | Opsiwn 25D: Gwelliannau yng ngorsaf Llanelli |
| | | | | | Opsiwn 25E: Gwelliannau yng ngorsaf Castell-nedd |
| | | | | | Opsiwn 25F: Gwelliannau yng ngorsaf Aberdaugleddau |
| | | | | | Opsiwn 12: Abertawe – Pontarddulais trwy Gastell-nedd a Llinell Ardal Abertawe (bob 30 munud, pob gorsaf) yn cynnwys: (Opsiynau 22, 23 a 24A-D) Gorsafoedd newydd yn: Llandarcy, Glandŵr, Winsh-wen, Treforys, Felindre, Penlle’r-gaer, Pont-lliw (yn galw hefyd yn Sgiwen a Llansamlet) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Opsiwn 13: Abertawe – Pen-bre a Phorth Tywyn (bob 30 munud, pob gorsaf) gan gynnwys (Opsiwn 24E) Gorsaf Newydd Y Cocyd (yn galw hefyd yn Nhre-gŵyr a Llanelli) |
| | | | | | Opsiwn 14: Trac ychwanegol yng Nghyffordd Llandeilo (gan osgoi cildroi yn Llanelli ar gyfer gwasanaeth rheilffordd Calon Cymru) er mwyn lleihau amseroedd teithio |
| | | | | | Opsiwn 15: Llwybr Metro Newydd rhwng Rhydaman a Gwauncaegurwen (bob 30 munud, pob gorsaf) |
| | | | | | Opsiwn 16: Llwybr Metro Newydd rhwng Castell-nedd ac Onllwyn (bob 30 munud, pob gorsaf) |
| | | | | | Opsiwn 17: Llwybr Metro Newydd rhwng Castell-nedd a Chwm-gwrach (bob 30 munud, pob gorsaf) |
| | | | | | Opsiwn 18: Llwybr Metro Newydd rhwng Castell-nedd/Llandarcy - Canol Dinas Abertawe trwy Ddociau Abertawe a Champws y Bae yn y Brifysgol (ar ffurf Gweithrediad Trenau Tram gan nad oes llinell rheilffordd yno ar hyn o bryd) (bob 30 munud, pob gorsaf) |
| | | | | | Opsiwn 19: Llwybr Metro Newydd rhwng Abertawe a Chlydach (bob 30 munud, pob gorsaf) |
| | | | | | Opsiwn 20: |

**11.** Nodwch eich ymateb i'r datganiad canlynol:

"Bydd y pum opsiwn rydw i wedi'u dewis fel blaenoriaeth yn gwella fy mhrofiad o ddefnyddio'r rheilffyrdd."

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

**12.** Nodwch eich ymateb i'r datganiad canlynol:

"Bydd y pum opsiwn rydw i wedi'u dewis fel blaenoriaeth yn fy annog i ddefnyddio'r rheilffyrdd yn amlach."

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

**13.** A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu hychwanegu a fyddai, yn eich tyb chi, yn ddefnyddiol wrth ddatblygu Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru? (uchafswm 200 gair)

**Rhowch bennawd yn ymwneud â’r cwestiynau**

| | |
|---|---|
| **Ffurflen Ymateb i’r Ymgynghoriad** | Eich enw: |
| | Sefydliad (lle bo’n berthnasol): |
| | E-bost / rhif ffôn: |
| | Eich cyfeiriad: |

**Cwestiwn 14** Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai’r Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Pa effeithiau rydych chi’n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 15** Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi’n credu y gall y Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru gael ei lunio neu ei addasu er mwyn:
[cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg; a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

**Cwestiwn 16**: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i’r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma.